

# Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2018/19

## Cyd-destun a chefnidir

### Yr ysgol

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn Sir y Fflint yw Ysgol Cae'r Nant ac mae'n rhan o GwE, Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru. Mae 391 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd: mae 17.99 y cant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM); mae gan 32 y cant anghenion dysgu ychwanegol (ADY); mae gan 12.1 y cant Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL); ac mae 20 y cant yn ddysgwyr graddau A\* ac A byd-eang, yr ystyrir eu bod yn fwy galluog a thalentog. Rhaniad rhyw yr ysgol yw 50.38 y cant yn fechgyn a 49.62 y cant yn ferched.

### Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae'r tîm arwain yn cynnwys pedwar aelod o staff. Mae 16 o athrawon yn Ysgol Cae'r Nant yn ogystal â 17 o gynorthwyyr addysgu.

### Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd yr ysgol £9,144 ar gyfer y cyfnod 2018/19.

## Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Ariannodd y grant ddysgu proffesiynol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Gan adeiladu ar waith 'Dysgu Gweledol' blaenorol, buddsoddodd yr ysgol yn y dull *Mantle of the Expert* i danio dychymyg y dysgwyr a gwneud dysgu yn fwy ystyrlon a chyffrous.

Ysbrydolwyd Ysgol Cae'r Nant i fuddsoddi yn y dull hwn yn dilyn ymweliad ag Ysgol y Priordy yn Aberhonddu. Dywedodd Nicky Kilpatrick, y Pennaeth:

'Gwelais i a'm pennaeth cynorthwyol yr effaith gadarnhaol yr oedd *Mantle of the Expert* yn ei chael ar eu disgyblion. Roedd ein dysgwyr ni yn ymwneud â dysgu ond ddim yn ymroi iddo, ac roeddem ni eisiau newid hyn.'

Defnyddiodd Ysgol Cae'r Nant y grant i hyfforddi staff addysgu a staff nad ydyn nhw'n addysgu yn yr ysgol ac i ryddhau staff i ymweld ag ysgolion hyfforddi *Mantle of the Expert* eraill.

Er mwyn iddi fod yr ysgol hyfforddi *Mantle of the Expert* gyntaf yng ngogledd Cymru, gweithiodd yr ysgol gyda rhanddeiliaid i:

- rannu hyfforddiant a phrofiadau gyda chydweithwyr a ffurfio triawdau ar draws ysgolion
- darparu cymorth a diwrnodau agored i ysgolion eraill ddarganfod yr addysgeg newydd hon
- cynnal wythnosau *Mantle of the Expert* i'r staff arbrofi a rhoi cynnig ar wahanol dechnegau
- rhannu adborth mewn cyfarfodydd staff i hysbysu grwpiau cymunedol dysgu proffesiynol.

## Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Gan fyfyrto ar yr effaith ar y staff, dywedodd Nicky Kilpatrick, Pennaeth yr ysgol:

'Mae gennym ni gymysgedd o aelodau staff sydd newydd gymhwyso a rhai profiadol yma yn Ysgol Cae'r Nant. Roedd yr holl staff yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol yn y maes hwn. Fe wnaethon nhw weld yn syth yr effaith yr oedd y dull yn ei chael ar ein dysgwyr, ac roedden nhw eisiau datblygu eu sgiliau eu hunain ymhellach o ganlyniad.'

Mae'r staff wedi cynorthwyo lleoliadau eraill i weithredu'r dull *Mantle of the Expert*, gan ganiatáu iddyn nhw ddatblygu fel mentoriaid ac ymarferwyr ac arweinwyr myfyriol.

Gan gydnabod ymrwymiad y staff, ychwanegodd Nicky Kilpatrick:

'I ennill statws ysgol hyfforddi *Mantle of the Expert* roedd angen sicrhau ansawdd nifer o aelodau staff. Mae angen hyfforddiant trochi, arsylwadau rheolaidd ac adborth ar aelodau staff sy'n cymryd rhan,. Aeth yr hyfforddiant ag aelodau staff allan o'r sefyllfaoedd yr oedden nhw'n teimlo'n gyfforddus ynddyn nhw ond roedd pawb yn cytuno ei fod wedi cael effaith gadarnhaol aruthrol ar eu harferion yn yr ystafell ddosbarth.'

## Effaith y grant ar ddysgwyr

Gellir gweld isod rhai o'r manteision a gafwyd o'r dull *Mantle of the Expert* gan ddysgwyr yn Ysgol Cae'r Nant.

Mae'r dysgwyr yn ymroi i'w dysgu – maen nhw'n angerddol ac yn falch o'u gwaith.

Mae dysgwyr yn dod a gwaith i mewn o gartref yn aml, yn gysylltiedig â'u hymholiadau *Mantle of the Expert*. Roedd hyn yn brin cyn defnyddio'r dull hwn.

Mae arolygon gwaith wedi profi bod y *Mantle* wedi cael effaith gadarnhaol ar faint o ysgrifennu y mae dysgwyr yn ei gynhyrchu, ei ddyfnder a'i ansawdd.

Mae tystiolaeth teithiau cerdded dysgu yn dangos bod yr holl ddysgwyr yn cymryd rhan yn frwdfrydig wrth gynnal ymholiad *Mantle of the Expert*.

Mae dysgwyr yn siarad yn angerddol ac yn bwrpasol gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd e.e. cynghorwyr GwE, penaethiaid, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr.

## Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol

Mae pwyntiau dysgu allweddol o Ysgol Cae'r Nant yn cynnwys y canlynol.

- Mae mabwysiadu dull ysgol gyfan yn hanfodol.
- Dylai dysgu proffesiynol ysgol gyfan fod yn gysylltiedig â thargedau rheoli perfformiad.
- Cynllunio'n effeithiol i gynnal cyflymder.
- Monitro cynnydd i sicrhau cysondeb a darparu cymorth.

## Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill

Gellir gweld cyngor allweddol gan Ysgol Cae'r Nant isod.

Rhowch amser i ddulliau/strategaethau newydd ymwreiddio, gan eu monitro'n agos.

Peidiwch â bod ofn gwneud camgymeriadau – gall dysgu ohonynt fod yn rymus iawn.

## Y camau nesaf

Nod Ysgol Cae'r Nant fydd:

- cynnal y statws ysgol hyfforddi *Mantle of the Expert*
- sicrhau ansawdd staff ychwanegol i ddod yn athrawon *Mantle of the Expert*
- parhau i rannu arfer da gydag ysgolion eraill yn ystod diwrnodau agored ac ati.